**CYNGOR**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.00 a.m. ddydd Iau 23 Ionawr 2025 yn Ystafell Teifi, Campws Caerfyrddin

**Aelodau Cyngor PCYDDS a PC:**
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans KC (Is-Ganghellor)
John Edge
Timothy Llewelyn
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry

**Aelodau Cyngor PC:**
Dr Stuart Robb
Geraint Evans
Iwan Thomas

**Aelodau Cyngor PCYDDS:**
Natalie Beard
Dr Tracy Cruickshank
Maria Dinu
Yr Athro Kyle Erickson
Rowland Jones
Geraint Roberts
Emlyn Schiavone
Katrin Shaw

**Yn bresennol:**
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cynghorau
Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Coleg Sir Gâr
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Yr Athro Mirjam Plantinga, PIG (Profiad Myfyrwyr)
Debra Williams PIG (Cysylltiadau Masnachol a Busnes)
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

Hugh Jones, Ymgynghorydd

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 25.01<br>Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Justin Albert, Dr Deborah Hughes a Deris Williams.<br><br>Croesawodd y Cyngor Katrin Shaw i'w chyfarfod cyntaf yn aelod o Gyngor PCYDDS. Croesawodd hefyd Hugh Jones a oedd yn arsylwi ar y cyfarfod yn rhan o'r Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu. |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 25.02<br>Datgan o fuddiannau | DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o Fuddiannau fel y'u nodir yn adroddiad y Clerc (CJO318). |
| 25.03<br>Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor ddiweddariad llafar gan y Cadeirydd.<br><br>Cofnododd y Cyngor ei gydymdeimladau â Maria Stedman, cyn Is-gadeirydd PCYDDS ac aelod o'r ddau gyngor, ar ei phrofedigaeth ddiweddar. |
| 25.04<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad llafar gan yr Is-Ganghellor.<br><br>Canolbwyntiodd yr adroddiad ar drafodaethau am gampws Llambed PCYDDS. |
| 25.08<br>Adroddiad rheolaeth ariannol ac arian parod | YSTYRIODD y Cyngor yr adroddiad rheolaeth ariannol ac arian parod (JCO321a).<br><br>Adroddodd y CGA bod gweithrediadau craidd yn uwch na'r gyllideb o ganlyniad i arbedion i'r gyflogres trwy swyddi gwag ac amrywiannau amseru ar gostau incwm cydweithredol a chysylltiedig. Roedd Gwasg PC yn parhau â'i thueddiad o ran lleihau'r diffyg. Roedd y gwerthiannau'n uwch na'r gyllideb, gydag arbedion swyddi gwag mewn meysydd cymorth yn cynyddu'r amrywiant cadarnhaol.<br><br>Ymatebodd yr Is-ganghellor i ymholiad ynghylch Athrofeydd Technegol PC. Nododd fod y prifysgolion a'r Colegau AB yn parhau i fod wedi ymrwymo i'r fframwaith Roedd angen peth gwaith ychwanegol i gyfnerthu a darparu'r manteision yn llawn. |
| 25.12<br>Adroddiad y Pwyllgor Academaidd:<br>10 Rhagfyr 2024 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2024 (JCO323). |
| 25.13<br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Academaidd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad blynyddol 2023/24 y Pwyllgor Academaidd (JCO324).<br><br>Wrth gyflwyno'r adroddiad, pwysleisiodd Cadeirydd y Pwyllgor bwysigrwydd presenoldeb da os oedd swyddogaeth y Pwyllgor i'w gwireddu'n llawn yn y dyfodol. |
| 25.14<br>Cofnodion | CYMERADWYODD y Cyngor Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2024 (JCO325a). |
| 25.17<br>Gweithredu gan y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar gamau gweithredu'r Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf (JCO327). |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 25.20<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf | 27 Mawrth 2025 yn IICL yn Westferry, Llundain. Byddai gwybodaeth bellach am deithio ac amseru yn cael ei dosbarthu cyn hir. |